WG35. 51 70

# MARWNAD

Y PARCHEDIG

## JOHN HOWELL,

Yr hwn a fu farw Medi 1, 1817,

YN 30 OED;

AC A GLADDWYD YN LLANGELER.

Gan JOHN JONES,

*Llechseion.*

Ioan fwyn, o'i fan mewn bud——o'i drigle,
A dreiglwyd i ailfud,
Dim yw dyn, er dawn d'wedud,
Ddoe yn fyw, a heddyw'n fud.

CAERFYRDDIN:

Argraphwyd gan Evan Jones, yn Heol-y-Prior.—1817.

LW 2968

X265 310027

# MARWNAD, &c.

1 O DDYFNDEROEDD glân rhaglun-
iaeth,
A dirgelion arfaeth Duw,
'Ry'm ni oll uwch llawr yn llwybro,
Yn ymrodio, bod a byw;
Y mae troion yn feunyddiol,
Yn dangos galluogol rym,
Ymfoddlonwn i'r drefnyddiaeth,
Duw sydd bob-peth; dyn yn ddim.

2 Pan y galwo am ein henaid,
Rhaid i'n fyned yn y fan,
Mae'r bedd yn wobr anhepgorol,
Etifeddol ar ein rhan;
Y mae marw'n rhwym wrth eni,
Maent yn nglyn mewn undeb gre',
O'r pridd y gwnaethpwyd dyn i fynu,
I'r pridd aiff 'nol drachefn i'w le.

3 Dan haul 'does ond gofidiau blinion,
Colli hen gyfeillion mwyn,
Mwy caf rodio 'ryd y graean,
Yn llwfr fy hunan dan bob llwyn;
Diangodd enaid Ioan fwyn-lan,
Allan ffwrdd o hyn o fyd,
A'r gorph ro'w'd dan briddellau'r
dyffryn,
Yn y clai mewn daear glyd.

W. 7. 41 (P)

4 Pan clywais farw fy hen gyfaill,
Ac iddo 'mado'n llwyr a'r byd,
Traws oer ddychryn yn fy mynwes,
A rhyw syndod dwfn mud;
Dyn oedd ddoe mewn bywyd bywiol,
Heddyw'n farwol dan y llen,
Mawr ac aml ryfeddodau,
Sy'n nhrefniadau Brenin nen.

5 Dyn o'i febyd er yn faban,
Ydoedd Ioan wiwlan wedd,
Hael ei galon, rhwydd ei roddion,
Hawddgar, ffyddlon, hyd ei fedd;
Gwenau ar ei enedigaeth,
Ddawn dysgeidiaeth, odiaeth gref,
Twyll, cenfigen, enllib, cynnen,
Ni artrefen gydâg ef.

6 Treiliodd foreu'i oes yn hynod,
Mewn myfyrdod pryddedd blin,
Wrth dreiddio mewn i'r ieithoedd gwreiddiol,
Nes daeth yn wrol wrth eu trin;
Yn athrofa ddofn Caerfyrddin,
Dan athraw diflin, doniol ddawn,
Bu'n llafurio yn ei lyfrau,
Yn ddiwyd foreu, a phrydnawn.

7 Mewn athroniaeth, a rhifyddiaeth,
Pwy mor helaeth ar ein tir,

Saer ac adeiladydd ydoedd,
  I'r glân jeithoedd gloyw clir;
Per ladmerydd, mwynedd, medrus,
  Doniol, dawnus, ydoedd ef,
Ddaeth yn foreu fod yn d'wysydd,
  Ar ddiadell Arglwydd nef.

8 Wedi yrddo yn Nghaerfyrddin,
  Fe fu'n ddiflin ar bob llaw,
Yn tyranu cyfraith Sinai,
  Gafwyd yn Arabia draw;
Gweiddi distryw anwir ddynion,
  Bu flynyddau glowion glân,
Heddyw ffowch i fynydd Seion,
  Fe â'n trigfanau ni a'r dân.

9 Yn Llangathen y dechreuodd,
  Uchel floeddiodd uwch y llu,
Nes datseinio broydd Towy,
  Megis udgorn croyw cry';
'Roedd fel fflam mewn llin yn llosgi,
  Yn enynnu trwy bob darn,
Am i ddynion ffoi o ddalfa
  Cyfraith Sinai cyn y farn.

10 'Nol cyhoeddi'r ddeddf erwinol,
  I glyw'r bobloedd fawr a mân,
A rhoi briw mewn c'lonau creigedd,
  Oedd adamentaidd oll yn lân;
Cyfnewid wnaeth ei gân yn gyoedd,
  Ac fe barodd hyd ei fedd,

Ddweud am gyflawn olew glanwedd,
Iraidd mwyn efengyl hedd.

11 Fe fu lawn bum mlynedd gyfan,
Yn Llangathen ar ei daith,
Yn cyhoeddi'r iachawdwriaeth,
Yn pregethu'r 'fengyl faith;
Galw i'r dyfroedd oedd ei adsain,
Lifodd ar Golgotha'n llynn,
Dweud fod cyflawn feddyginiaeth,
Yn ngwaed Aberth pen-y-bryn,

12 Wedi 'madael a Llangathen,
Yn Llangaren y bu ef,
Yn cario'r gywir genadwri,
Dros Dywysog pur y nef;
D'wedai ar g'o'dd uwch ben y bobloedd,
Am y gwerthfawr olew drud,
Ragbartowd i wella clwyfau,
'R aflanaf rai o fewn i'r byd.

13 Mewn amrywiol o eglwysi,
Fe fu'n groyw'n gweiddi ma's,
Ffowch, O ffowch o ddinas Babel!
Ar adenydd dwyfol ras;
Deuwch oll i ddinas Siloh,
Oedd e'n seinio îs law'r sêr,
Heddyw trachtiwn, fe'n diwellir,
Yn nentydd pur'r efengyl bêr,

14 Deuwch maes o wlad Amoria,
O! Samaria ffiaidd ffol,
Nac ymdrowch yn nyffryn Babel,
Mae'r Iesu'n galw ar eich ol;
'Madewch a'r Aipht a'i bydol bethau,
A gyhoeddai ar ei daith,
Dyma adsain ei bregethau,
Nes i angeu wneud ei waith.

15 Mae amser sobor i'n cyfarfod,
Heddyw am y cymod rhad,
Heddyw am yr eli bywiol,
Y dwyfol ddw'r, a'r dwyfol wa'd;
Mewn ing dan ddwylo oerion angeu,
O! gyfyngder rhyfedd yw,
Dweud ffarwel, rhaid i mi 'madael,
A myn'd i'r grafel at y griw.

16 " Ar fy nhaith i'r byd ysbrydol,
" 'Nol myn'd o'r daearol ma's,
" Aethym heibio'r fwyn Fasoroth,
" Trwy lydan-borth awyr lâs;
" Ac Arcturus fawr ac Orion,
" Gemau gwynion aer o'r bron,
" Yn gyflymach nac yw'r fellten,
" Yn tywynu ar y don."

17 " Heibio llenni'r awyr lydan,
" Mentill gwyrddlan haul a llo'r,
" Ser, Planedau, glowion berlau,
" Uchel dyrau'r Brenin Iôr;

"I wledydd gwynion, tir gogonedd,
"Trwy drugaredd ryfedd rad,
"Goruwch i'r gronglwyd fraith serenog,
Sydd fyrdd filltiroedd dan fy nhra'd."

18 "'Nawr yn nofio'r dirfawr foroedd,
"Cyflawn ddyfroedd, dinas hedd,
"Mewn mwyniant o'r danteithion nefol,
"Lle mae yn drag'wyddol wledd;
"Yn mhlith lluoedd llawn tangnefedd,
"Sy'n nghylch 'r allor auredd lân,
"Ac 'ryd hewlydd hardd Caersalem,
"Yn gyru'n eu cerbydau tân."

19 Marchogwr brigau tonau'r moroedd,
Adenydd gwynt ac esgill gwawr,
Fo'n borth i'w weddw, yn ei chynal,
Tro'i yn yr anial ar y llawr;
Hen Aneddwr trag'wyddoldeb,
Penadur pawb ac Awdur byd,
Fo i'w frodyr a'i chwiorydd,
Yn hawdd ei gael ar bob rhyw bryd.

20 Deg-ar-hugain oedd ei oedran,
Yn cael ei ro'i i'r graean ô'r,
Daeth gwys o'r llys i maes i'w 'mofyn,
Wrth orchymyn Brenin Iôr;

Un fil wyth cant a dwy-ar-bymtheg,
Heb ro'i 'chwaneg ddim at hyn,
Pan aeth Ioan maes o'i drafferth,
Oedd oedran Aberth pen-y-bryn.

21 Obry'n ddwfn yn ngwaelod gweryd,
Mewn graean oer yn nghryd y gro,
Yn Llangeler mae e'n gorwedd,
Mewn daear gell, a phridd yn do;
Dan fentill cyflawn llenni'r cyfnos,
Mewn coyfedd oeredd gwedi gae,
Dan lywodraeth Brenin hirnos,
Yn ei ddiddos dŷ o glai.

22 Nid all corwyntoedd awyr uchel,
Na chryniadau daear faith,
Lleisau tonnau, llef llif-ddyfroedd,
Bloeddiadau lluoedd ar un waith;
Rhuadau grilliaidd, sain taranau,
I ddeffro'r marw yn y dda'r,
Sy'n y fonwent hon yn huno,
Mewn amdo yn y gweryd gwar.

TERFYN.

---

## *Y LLEFARIAD OLL.*

Ioan fwynlan heb ei fath,
Oddi wrthym aeth ar feth,
Ni feiddia'n blaen 'nol i'n plith,
Diangc wnaeth o'r ceingciau poth,
I fwynhau nef-fanau fyth,
Trwy angeu traws ingedd wth,
Aeth at Naf i'r nefol nyth.